EGLWYS EMAUS BANGOR

# Y NEGESYDD

## AWST a MEDI 2022

## LLYTHYR GAN Y GWEINIDOG - HAENAU

### CASTELL PENRHYN



Mae llawer o hen adeiladau yn arddangos haenau eu hanes. Bydd yna ddarnau wedi eu hychwanegu ar wahanol gyfnodau ac mewn gwahanol arddulliau nes rhoi’r argraff o glytwaith. Yn achos Castell Penrhyn, cyrchfan criw o blant, pobl ifanc a’u teuluoedd yn gynharach y mis yma, mae’r haenau yno reit o’r cychwyn, a thwyll i’r llygaid yn rhan o’i wneuthuriad o’r dechrau’n deg. Yn y lle cyntaf, mae ganddoch chi gastell sydd ddim yn gastell go iawn, fel yr esboniodd ein tywysydd hawddgar, Sioned, wrthym. Plasdy wedi ei godi o frics coch yw’r adeilad a’r rheiny wedi eu gorchuddio gan haen o gerrig. Er bod plasdy canoloesol ar yr un safle, prin dwy ganrif ydy oed yr adeilad presennol a hwnnw’n cymryd lle adeilad Gothig a godwyd hanner can mlynedd cyn hynny. Mae’r haen o gerrig yno i roi’r argraff mai caer ydyw nid tŷ a’i fod yn llawer hŷn nag y mae mewn gwirionedd.

### HARDDWCH A HACRWCH

O fewn y plasdy mae na haenau o grefftwaith godidog: cerfio mewn pren, carreg a llechen. Mae darluniau olew hyd y waliau anferth, a phapur wal, carpedi a llenni mewn defnyddiau moethus sy’n dyst i ddawn artistiaid a chrefftwyr o bob math. Mae yna waith crefftwyr lleol a darnau crefftus o nifer o wledydd y byd yn rhannu’r un ystafelloedd. Mae portreadau o’r teulu Pennant a champweithiau yr Hen Feistri yn cadw cwmni i’w gilydd a’r cyfan yn creu haen ar haen o liw a rhyfeddod.

Mae yna haenau i hanes y lle sy’n ein gwneud ni’n anesmwyth, wrth gwrs. Daeth cyfran o gyfoeth teulu Pennant o’r planhigfeydd siwgwr lle gweithiai caethweision dan amgylchiadau creulon. Roedd yn y plasdy ei hun wahanol ‘haenau’ o gymdeithas yn cyd-fyw hefyd ond heb rannu’r un breintiau. Nid yr un dwylo oedd yn codi te tsieni â’r dwylo fyddai’n glanhau’r gratiau ac yn cynnau tân, yn coginio a gweini bwyd. Edrychwch drwy ambell i ffenest ac fe welwch chi’r mynyddoedd sy’n faes chwarae i dwristiaid erbyn hyn ond fu unwaith yn ganolbwynt diwydiannol prysur oedd yn cadw teuluoedd lleol yn dlawd a dan fawd mewn system ormesol. Hyd heddiw mae teuluoedd yn dal i gofio pwy arhosodd ar streic a phwy gafodd eu llwgrwobrwyo i fynd yn ôl i’w gwaith.

## CREFFT A CHAMWEDD

Heddiw mae modd i ni feddiannu'r castell am y dydd, fel y gwnaeth y criw o Emaus, i fwynhau'r ystafelloedd crand a chwarae yn y gerddi. Mae modd i ni hefyd feddiannu hanes y lle, a'i ddefnyddio i'n dysgu ni am grefft ac am gamwedd y rhai a aeth o'n blaenau. Mae'r ddynoliaeth yn medru creu pethau gwych, yn medru deall syniadau astrus, yn medru gyrru roced i'r gofod a darganfod brechlyn arbennig i daclo Covid. Rydym yn dystion hefyd i'r ddawn sydd gan bobl o bob gwlad i ddangos caredigrwydd rhyfeddol a gofal tyner y naill i'r llall. Eto'i gyd mae rhai yn dewis defnyddio eu doniau a'u deall i gynllwynio creulondeb, yn medru lladd a dinistrio ei gilydd. A nid rhywbeth o'r llyfrau hanes yn unig yw hyn, ond mae'n digwydd heddiw. Wrth i mi ysgrifennu'r geiriau yma mae na bobl diniwed yn cael eu lladd yn yr Wcráin a phorthladd lle mae grawn ar fynd i fwydo'r newynog yn Affrica yn cael ei dargedu gan daflegrau Rwsia.

## CYMDEITHAS

Roedd hi'n fraint ymweld â Chastell Penrhyn gyda phlant a phobl ifanc Emaus a'u teuluoedd – dyma rai o benseiri'n dyfodol. Cawsom y cyfle i ddysgu mwy am y castell ond hefyd hamddena'n braf yn y gerddi dan gysgod y coed yn cymdeithasu, yn cydweithio, yn cynnwys pawb yn y gêmau yn ôl eu hoed a'u gallu. Weithiau mae'r profiadau mwyaf syml yn medru bod yn rhai dwfn iawn sy'n gadael argraff.

Mae'n siwr mai profiad nid hollol annhebyg gafodd yr heddychwr mawr Waldo Williams wrth wylio criw o ffermwyr yn cydweithio wrth gasglu'r cynhaeaf, profiad sy'n cael ei bortreadu yn y gerdd Mewn Dau Gae. Yn y gerdd mae'r bardd yn mynegi'r ymdeimlad dwfn ei fod yn dyst i gyd-fyw da pobl gyda'i gilydd. Petai'r ddynoliaeth gyfan ond yn medru blasu'r ymdeimlad yma o frawdoliaeth, yn medru ymdeimlo'r cytgord yma pan mae pawb yn cydweithio ar yr un gwastad, yn trysori ac yn parchu ei gilydd, yna fyddai na ddim angen am wrthdaro na rhyfela, a dim lle i ormes na chreulondeb yn ein byd.

Diolch i bawb ddaeth ar ein trip i Gastell Penrhyn a dyma'i hymatebion ac ambell lun.



- - - - - - - - -

*"Roedd fy hen daid, William John Williams, yn un o'r rhai cyntaf i fynd ar streic yn chwarel y Penrhyn yn 1900, a byddai'n troi yn ei fedd tasa fo'n gwybod mod i yma heddiw... mae yna stryd yn Tregarth o'r enw Tanrhiw Road, gafodd y tai eu hadeiladu gan Lord Penrhyn a'r stryd yma gafodd ei alw yn 'Tai'r Bradwr', am bod chwarelwyr wnaeth dorri y streic gafodd nhw tŷ newydd a punt a galw hyn yn 'punt y gynffon'."*
*(Paul, Eleri a Cian)*

- - - - - - - - -

"Awyr las, awel ysgafn, cysgod coeden, lleoliad hyfryd ond yn well na dim cwmni difyr Teulu Emaus!" (Lowri)

- - - - - - - - -

**"Roedden ni wedi mwynhau pob dim a'r peth gorau oedd cael bod gyda phawb" (Cadi, Ffion a Nain (Alison))**

- - - - - - - - -

***"Roedd trip Castell Penrhyn yn wych. Ges i hwyl yn chwarae'r gemau tu allan a gweld y fideo am hanes y Castell tu mewn, oedd yn ddiddorol iawn. Dwi'n edrych ymlaen i'r Ysgol Sul nesaf yn barod!" (Alys)***

- - - - - - - - -

## YN NEUADD Y CASTELL




**"Cafodd pawb amser braf iawn yng Nghastell Penrhyn. Hoff bethau ein teulu ni oedd mynd i'r parc, bwyta hufen iâ a sgwrsio wrth eistedd yn y cysgod. Wnaethon ni gyd fwynhau'r gemau pêl a'r cyfle i fynd o gwmpas y ty crand."**
**(Lucy, Carys, Luned, Ianto ac Awel)**

## Y BWRDD PICNIC



***"Roedd hi'n braf dysgu mwy am Gastell Penrhyn ond y peth gorau i gyd oedd cael treulio amser yn chwarae a hamddena gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd Emaus yn enwedig ar ôl cyfnodau o fethu â gweld ein gilydd."***
**(Dilwen, Eleri a Casi)**

## DAN GYSGOD Y COED



"Ges i gymaint o hwyl ar y trip Ysgol Sul yn chwarae gemau a mynd i'r parc. Nes i fwynhau y picnic dan y goeden a chael hufen iâ hefo ffrindiau. Diolch am gael mynd ar y trip"
(Mati)

## OEDFAON BORE SUL A CHYFARFODYDD AWST A MEDI

7 Awst: Oedfa undebol ym Merea Newydd
ar ffurf datganiad ar yr organ gan Robert Luke
14 Awst: Oedfa undebol yn Emaus
dan arweiniad y Parchedig Emyr Wyn Rowlands
21 Awst: Oedfa undebol ym Merea Newydd
dan arweiniad y Parchedig Eric Jones
28 Awst: Oedfa undebol yn Emaus
dan arweiniad y Parchedig Rhun Murphy

*•Ni fydd oedfaon Awst ar Zoom oni cyhoeddir yn wahanol ymlaen llaw*

3 Medi: Masnach Deg a Bore Coffi o 10 tan hanner dydd
4 Medi: Oedfa gymun dan arweiniad y gweinidog
11 Medi: Oedfa pob oed dan arweiniad y gweinidog
18 Medi: Oedfa dan arweiniad Gwilym Owen
20 Medi: Cyfarfod 'paned a sgwrs' rhwng 3 a 4 yn y festri
25 Medi: Oedfa dan arweiniad y gweinidog

*•Bydd oedfaon Medi yn y capel ac ar Zoom*



## MAES PARCIO EMAUS

Mae croeso i aelodau ddefnyddio'r maes parcio o dro i dro yn ystod yr wythnos ar adegau pan nad oes defnydd arall ohono.

Nid oes clo ar y bar ac mae angen bod yn ofalus wrth ei godi.

Gofalwch eich bod yn gostwng y bar ar ôl parcio ac wrth adael y maes parcio.

Mae'r cytundeb gyda'r brifysgol i ddefnyddio ei meysydd parcio cyfagos ar y Sul yn parhau.




## CAPIO

*Llongyfarchiadau mawr i'n pobl ifanc sydd wedi graddio yn ddiweddar. Dilyn cwrs Astudiaethau Chwaraeon ac Addysg Gorfforol ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd wnaeth Gruffydd Eirug tra bu Ioan Bryn a Gethin Elis yn astudio Cerddoriaeth, Ioan yn LIPA Lerpwl a Gethin ym Mhrifysgol Leeds. Mae'r tri wedi dewis aros yng Nghaerdydd, Lerpwl a Leeds am y tro.*
*Pob hwyl iddynt.*

## CHWIORYDD ARFON

Ar ran Chwiorydd Arfon hoffwn ddiolch i Eleri Lloyd Jones, Llywydd Cenedlaethol y Mudiad, wrth iddi nesáu at ddiwedd ei chyfnod. Cytunodd Eleri i aros ymlaen yn y swydd am flwyddyn arall gan nad oedd modd inni gyfarfod i drosglwyddo'r awenau oherwydd cyfyngiadau Cofid. Er hynny, llwyddwyd i gynnal cyfarfod rhithiol llewyrchus ar Zoom pan fu'n bosib i ragor o'n chwiorydd ar draws Cymru ymuno gyda ni. O ganlyniad, llwyddwyd i drosglwyddo rhodd anrhydeddus tuag at Gartref Glyn Nest sydd mor agos at galon pob un o'r chwiorydd. Mae'r cyfnod yma wedi bod yn heriol i'r staff a'r deiliaid a siom o'r mwyaf oedd gorfod gohirio'r diwrnod agored blynyddol. Mae mynd i'r cyfarfod yma yn orchwyl bleserus iawn sy'n dod i ran y llywydd. Y pleser nesaf gaiff Eleri fydd trosglwyddo'r llywyddiaeth i ddwylo sicr Ruth Davies, Tabernacl, Caerdydd sydd wrth gwrs yn gyn-aelod o Chwiorydd Arfon. Edrychwn ymlaen at y cyfarfodydd yn y Tabernacl ar Ddydd Mercher, Medi 14eg a bydd croeso twymgalon yn ein haros. Mae'r trefniadau eisoes yn eu lle a bydd y manylion i gyd ar y poster fydd yng nghyntedd Emaus erbyn dechrau Medi. Cyfle i gael rhyw hoe fach yn y brifddinas?

*Siân Arwel*






Eleri Lloyd Jones



Ruth Davies

# MALWAN BACH FEL FI...


Pleser pur oedd cael ymateb yn gadarnahol i gais gan Prydwen Elfed-Owens i gynnwys proffil o Emaus yn ei llyfr newydd sy'n cael ei lansio ym Mhabell Cytûn ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron am 2 o'r gloch, ddydd Mawrth 2 Awst.

Mae hanes y gyfrol gyffrous hon ar y clawr cefn, o'r anobeithio cychwynnol i'r cynnwrf terfynol: Mae'r dirywiad yn nylanwad Cristnogaeth yng Nghymru ac yn y niferoedd sy'n mynychu lle o addoliad yn amlwg i bawb. Ond a yw'r sefyllfa'n gwbl anobeithiol? Man cychwyn y gyfrol hon yw cyfweliad YouTube a roddodd Prydwen yn 2021 i'r cylchgrawn Cristion, lle y bu'n llawdrwm ar y sefyllfa gyfoes yng nghapeli ac eglwysi Cymru. Ond wrth wrando'n ôl ar y cyfweliad, sylweddolodd ei bod wedi pardduo pawb â'r un brws beirniadol, heb wneud digon o waith cartref i gyfiawnhau ei chasgliadau. Penderfynodd, felly, fynd ar bererindod personol 'i gloddio am aur'. Mae'r gyfrol hon yn ffrwyth y pererindod hwnnw, sef chwe mis o gasglu tystiolaeth am y sefyllfa eglwysig yng Nghymru ac o fyfyrio arni. Cynhaliodd gyfweliadau â chroestoriad o 60 o bobl sy'n weithgar mewn cyd-destunau eglwysig amrywiol, yn lleol ac yn genedlaethol, gan gynnwys llawer o brif arweinwyr yr enwadau a mudiadau Cristnogol. Da yw datgan ar sail y cyfweliadau hynny fod yna egni, gobaith a brwdfrydedd i'w gweld mewn pocedi byrlymus a chyffrous yng Nghymru heddiw. Da hefyd yw gweld bod cynnwrf amlwg yn yr achosion eglwysig hynny lle mae'r arweinyddion yn mwynhau rhannu eu ffydd bersonol yn agored. Mae'r 60 cyfweliad sy'n ffurfio craidd y gyfrol hon yn cynnwys esiamplau o batrymau a dulliau gweithredu y gellid eu hefelychu, eu haddasu a'u datblygu. Yn ogystal, ceir yma ddadansoddiad gan Prydwen sy'n cynnig syniadau, ystyriaethau a meini prawf y gall eglwysi fesur eu pererindodau eu hunain yn eu herbyn.

Diolch i Prydwen am ei hegni a'i gweledigaeth. Mae'r llyfr eisoes wedi cyrraedd y siopau. Mynnwch gopi! - ( **Gwasg Carreg Gwalch. 431 tudalen, yn fargen am ddecpunt**).



Yr Ysgrifennydd yn derbyn copi gan Casi




Clawr y gyfrol

# CORNEL POSAU GARETH

## ATEB I BOS GORFFENNAF 2022



*POS CWPAN Y BYD*

143 ysgydwad llaw i gyd.

# POS AWST 2022

## POS TYMHEREDD

I newid graddau Celsius i raddau Fahrenheit
rhaid lluosi efo 9, wedyn rhannu gyda 5 ac yna adio 32.

*Sawl gradd Fahrenheit yw 20 gradd Celsius?*
*Sawl gradd Celsius yw 50 gradd Fahrenheit?*

Bydd yr atebion yn rhifyn Hydref.





CYLCH TI a FI


## - CYLCH TI a FI -

Ar ôl seibiant hir, mae'n braf gallu dweud bod y Cylch wedi ailddechrau ar foreau Iau. Roedd yn hyfryd gweld babanod a phlant bach yn dechrau o'r newydd gan fod y rhai a arferai ddod wedi symud ymlaen i'r Cylch Meithrin. Bydd y Cylch yn ailagor fore Iau, Medi 8 am 9.15. o dan arweiniad Elin Owen o Gylch Meithrin Y Garnedd. Os hoffai unrhyw un wirfoddoli i helpu, byddem yn falch iawn. Golyga fod yno o 9 tan 11 a hynny yn ystod tymor ysgol. Am fwy o fanylion cysyllter ag Elen Lansdown :


e-bost : Lansdownelen@gmail.com tel : (01248) 364843

## R S THOMAS


Fuoch chi erioed yng nghoridor yr is-ganghellor ym mhrif adeilad y brifysgol? Nadddo? Naddo, wir? Mae'n debyg eich bod wedi mentro i Neuadd PJ ond efallai wedi bod yn ansicr ynghylch crwydro ymhellach o amgylch yr hen adeilad. Mae'n werth mentro, yn arbennig yn ystod yr haf a'r myfyrwyr wedi troi am adre.


RS PLAS YN RHIW

Eleni mae'r coridor yn gartref i arddangosfa arbennig am fywyd a gwaith y bardd R.S. Thomas ac yn werth ei gweld. Tony Brown a Jason Walford Davies sydd wedi rhoi'r casgliad at ei gilydd, y ddau wedi cyfrannu'n helaeth at y gwaith o sefydlu Canolfan Ymchwil R.S. Thomas yn y brifysgol, canolfan a agorwyd gan RS ei hun yng ngwanwyn 2000.




TEIPIADUR,SBECTOL A THOCYN LLYFRGELL


YR ARTHRO IWAN DAVIES

Peidiwch â bod yn swil ond mentrwch i fwynhau'r cyfoeth sydd i'w weld yn yr arddangosfa a fydd yn parhau ar agor tan ganol mis Rhagfyr.

Tra yn y coridor efallai y cewch gip ar yr is-ganghellor, yr Athro Iwan Davies, wrth iddo baratoi i'n gadael, a chyfle i ddiolch iddo am ei arweiniad dros gyfnod digon anodd yn ein hanes ac i ddymuno'n dda iddo at y dyfodol. Ein dymuniadau gorau hefyd i Katherine, gwraig Iwan, am ei chwmni yn Emaus, a'n diolchiadau am eu cefnogaeth i'r eglwys.


# Dwylo



Wrth feddwl am neges Aled Davies yn yr oedfa y Sul o'r blaen am wahanol agweddau ar ddwylo Duw, daeth atgofion yn ôl i mi o fy mhlentyndod, yn edrych ar y lluniau lliwgar yn y Beibl mawr oedd gennym adre'. Fy hoff lun oedd o Iesu'n dal llusern yn un llaw, a ffon fugail yn y llall. Dwi'n hoff o wneud ffyn tebyg hyd heddiw. Wrth gwrs aeth amser heibio cyn i mi sylweddoli mai **'Iesu goleuni'r byd'** oedd y llun.

Rai blynyddoedd yn ôl, wrth drafod newid y goleuadau yn ein lolfa, cefais fy ysgogi gan yr un llun i greu rhywbeth fy hun. Dyma nôl pensel, papur a darn o bren – mae'r mab ieuengaf yn honni y byddwn yn gwneud dannedd gosod o bren pe gallwn! Cerfiais bâr o ddwylo (fy rhai i) i ddal y goleuadau. Maent ar y wal, fel y gwelwch yn y lluniau, yn ein hatgoffa mai ein dwylo ni yw dwylo Duw, a thrwom ni mae goleuni Duw yn cael ei lewyrchu yn y byd.

***Wes***



Llaw chwith



Llaw dde



Saer ar waith

# TRAIDCRAFT


Diolch i Dilwen ac Eleri
am gynnal bore coffi mis Gorffennaf,
ac i Alison a Kath
am agor y gegin am y tro cyntaf.

O fis Medi ymlaen
byddwn yn chwilio am wirfoddolwyr
i wneudy coffi bob mis.

Yr adeg yma o'r flwyddyn
byddwn yn rhannu elw y siop.
Rhoddwyd £150 yr un i'r BMS
a Cymorth Cristnogol,
£200 i Traidcraft Exchange,
(Yn cynnwys pres y coffi)
a £50 i'r banc bwyd.

Diolch i bawb fu'n cefnogi
yn ystod y flwyddyn.
Cynhelir y bore coffi nesaf
dydd Sadwrn Medi 3ydd
o 10 tan 12 o'r gloch.

## COCHWILLAN YN Y STEDDFOD



Mentrwch i stondin Prifysgol Bangor
erbyn 11am ar dydd Iau
yr Eisteddfod
i fwynhau sgwrs yn y theatr yno
gan Gwilym Owen
ar ***Cochwillan a Harri'r wythfed***,
yn dilyn cyflwyniad o chwarter awr
gan Gwyn ar y trwmped.
Cyfuniad difyr iawn!

## DIOLCH

**Diolch yn fawr i Gareth Ffowc Roberts am olygu y rhifyn yma a diolch ychwanegol iddo am ei gymorth bob mis yn gwirio a gwneud yn siwr nad oes gwallau wedi sleifio i mewn i'r Negesydd.**

---------------------------------~---------------------

## NEGESYDD HYDREF

**Dylid gyrru eitemau ar gyfer rhifyn Hydref y Negesydd at olygyddion y rhifyn,Ann a Gareth Roberts, erbyn Medi 21, os gwelwch yn dda.**

**e-bost: garethroberts46@icloud.com**
**ffôn: 01248 364049**
**Gellir hefyd anfon eitemau yn syth i'r Negesydd**
**e-bost : negesydd@btinternet.com**

---------------------------------~---------------------

**Wrth baratoi rota'r golygyddion ar gyfer 2022/23, byddem yn croesawu'r cyfle i ychwanegu rhagor o enwau at y rhestr o wirfoddolwyr.**
**Am ragor o fanylion cysylltwch gyda'r ysgrifennydd Gareth Ffowc Roberts, os gwelwch yn dda.**
**e-bost :**
**ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com**
**ffôn : 01248 351243**

## AILGYDIO

Hyfryd clywed am dair drama newydd gan Aled Jones Williams yn cael eu perfformio yng nghartref Cwmni Theatr Bara Caws yng Nghaernarfon. 'Mynd i'r Wal' oedd un o'r dramâu, a sgwennwyd ar gyfer John Ogwen a Maureen Rhys ac a welwyd ar ffilm. Braf iawn hefyd oedd gweld y cysylltiadau gydag Emaus yn noson 'Gwyn a'i Fyd' ar lwyfan Pontio yn deyrnged i Gwyn Thomas gan Gôr Glanaethwy. Yng ngeiriau Cefin Roberts: *"Diolch am y geiriau, Gwyn, ac am eu plethu mor gywrain ar ein cyfer ni 'gyd. Gwyn ein byd."*

# BLODAU



Diolch i
Glenda Jones, Kath Jones a Llinos Davies
am ofalu fod blodau yn y capel
yn ystod mis Gorffennaf.

Fe fyddaf yn gofalu fod blodau
ar gyfer mis Awst.

Diolch i bawb sydd wedi rhoi blodau
yn y capel dros y flwyddyn.
Mae cymaint yn gwerthfawrogi gweld
blodau ffres yn ystod yr oedfa.

Rhag fy mod yn mynd ar ofyn yr un rhai o hyd,
fe fyddai'n braf gallu derbyn
mwy o enwau ar y rhestr.
Nid oes angen arbenigedd gosod blodau!

Croeso i chi gysylltu ar : 01248 352205
neu : merielparry@gmail.com

*Diolch,*
*Meriel*



MARIAN, BRANWEN A CATRIN

## TAIR CENHEDLAETH YN EMAUS

*'Fore Sul ddiwedd Gorffennaf, cawsom y fraint o groesawu Branwen Alys i'r oedfa. Roedd hi wedi dod a'i mam, Catrin a'i nain, Marian gyda hi. Branwen oedd yr unig un gafodd ganiatad Casi i gysgu yn ystod yr oedfa. Cafodd ei suo gan y canu a'r moliant siwr o fod. Roedd yn hyfryd cael ei chwmni gan fod rhai ohonom yn cofio Catrin, ei mam, yn mynychu'r oedfa yn Penuel bryd hynny, am y tro cyntaf.*

*Croeso mawr.*

*"Anti" Siân*

## *MAWL GER Y PIER 2022*

Daeth nifer dda ohonom ynghyd ar gyfer Mawl ger y Pier eleni. Cynhaliwyd yng ngerddi Pier Garth Bangor dan nawdd Cytûn Bangor.

Arweiniwyd y canu gan Neil a Ruth Gooding o eglwys Mosaic a chyflwynwyd yr emynau gan aelodau o wahanol eglwysi Bangor.

Yn ystod yr oedfa cyflwynwyd stori Joseff a'i frodyr gan grŵp Cymraeg Agor y Llyfr gyda chymorth rhai o'r plant oedd yn bresennol. Steven Lansdown oedd yn chwarae rhan Joseff *(gweler yn y llun gyda Casi)*.

Roedd y tywydd yn braf a'r golygfeydd ar draws Traeth Lafan am Fiwmares yn odidog.

***Diolch i bawb fu'n trefnu***.







## NEWYDDION AM RICHARD GWYNEDD

*Rydym fel teulu yn ddiolchgar iawn am bob galwad ffôn ac ymweliad tra bu taid – Richard Gwynedd – yn yr ysbyty am gyfnod o dri mis.*

*Erbyn hyn mae Richard wedi cartrefu'n dda yng Ngherrig yr Afon, Y Felinheli. Mae'r cerdyn a anfonwyd ato o fore Sadwrn Traidcraft wedi bod yn destun aml i sgwrs a thrio holi pwy oedd hwn a hon.*

*Roedd Richard wedi bod allan am dro yn ei gadair y bore yma (26 Gorffennaf). Mae oriau ymweld yng Nherrig yr Afon drwy'r dydd, ond rhaid cymryd prawf Cofid ar amser fel hyn.*
*Rydym yn gwerthfawrogi teulu Emaus a'u caredigrwydd yn fawr iawn.*

*Cofion gan Jane*

## GENI

*Llongyfarchiadau i Delyth a Richard Williams ar enedigaeth wyres fach newydd.*
*Ganwyd Sara Wyn Williams i Meilir eu mab a Gwenllian*
*yng Nghaerdydd.*
*Dymuniadau gorau a chroeso cynnes i Sara.*

### PRIODAS DDIEMWNT

Mae Nancy a minnau yn diolch o galon i'n
cyfeillion yn Emaus a gofiodd amdanom
ar achlysur ein priodas ddiemwnt.
Oherwydd yr amgylchiadau yr oedd y
dathliad yn syml a thawel,
ond serch hynny mae'r ddau ohonom
yn hapus iawn ac yn teimlo'n lwcus
ein bod wedi cael bod yng nghwmni'n gilydd
a chael bywyd priodasol dihafal am 60 mlynedd
*[Mae'n debyg, yn ôl yr ystadegau, mai dim ond*
*un briodas allan o bob cant*
*sy'n cyrraedd y garreg filltir yma]*
*Fe gafwyd un cerdyn, sydd, efallai o*
*ddiddordeb am ei fod yn un Cymraeg.*




Eirwyn Morris




Rhai o'r llwyau caru
a wnes drwy'r
blynyddoedd
yn rhodd i Nancy
ar ein penblwyddi
priodas

Eirwyn

### GWEFAN GWAITH CELF NANCY

Ar ôl bod yn segur am nifer o flynyddoedd mae gwefan Gwaith Celf Nancy wedi ei hadnewyddu ac mae'n syml iawn i'w defnyddio. Gellir gweld engreifftiau o waith mae Nancy wedi ei gynhyrchu dros nifer o flynyddoedd. Fe fydd y dewis o'r lluniau yn newid o dro i dro ac felly yn werth ymweld bob hyn a hyn.

**www.nancymorris.co.uk/cy/**



## NESTA WILLIAMS

*Ar 14 Gorffennaf bu farw Nesta Williams, aelod ffyddlon ym Mhendref ac yna Emaus, o 36 Cae Garnedd, Bangor, gynt o Y Fenallt, Tal y Cae, Tregarth. Yn yr angladd yn Emaus ar 21 Gorffennaf, rhannodd ein gweinidog atgofion ei meibion, Rhys a Guto, o fam a mamgu arbennig iawn a chlywed am ddyddiau cynnar Nesta ac Iolo gyda'i gilydd ac am y fagwraeth hyfryd a gafodd y ddau fab yn y gymuned glos a chroesawgar yn Nhregarth gan gynnwys nifer o storïau i godi gwên .*

*Roedden nhw'n gwerthfawrogi'n arbennig y ddawn oedd ganddi i ganmol a chymell ei theulu a'r gofal arbennig oedd ganddi o'i phriod Iolo. Mae ein meddyliau gyda Iolo, Rhys, Guto a'r teulu cyfan ar yr adeg yma.*

*Yn dilyn, cafwyd y deyrnged hyfryd hon er cof am Nesta gan Branwen Jarvis, ei chyfaill oes*:

Nesta ei hun ddewisodd yr emynau i'w canu yn ei hangladd. Fe fu hi'n gapelwraig ffyddlon ar hyd ei hoes, ac 'roedd cael gwasanaeth urddasol a theilwng yn bwysig yn ei golwg. Mae ei dewis yn dweud llawer amdani. '***Calon lân, yn llawn daioni***' – a dyna grynhoi cymeriad Nesta mewn ychydig eiriau. Roedd ei chynhesrwydd calon-agored a'i gofal dros bawb o'i chwmpas yn drawiadol. Fyddwn ni, ei chyfeillion a'i chymdogion, fyth yn anghofio'r wên lydan a'r croeso twymgalon oedd yn ein haros bob amser wrth ddrws y Fenallt. Roedd Nesta yn un o'r bobl hynny oedd yn gallu gwneud i eraill deimlo'n werthfawr ac yn bwysig. Rhoi, rhoi, rhoi oedd ei natur hi. Gall Iolo, Rhys a Guto dystio i hynny. Fe roddodd hi o'i chalon yn ddiarbed i'w theulu, ei rhieni, ei hwyrion, ei brawd David a'i chwaer Meirwen hefyd. Un arwydd o hynny oedd y ffordd y croesawodd hi ei thad Gwilym i'w chartref yn ei flynyddoedd olaf, a rhoi iddo bob gofal ac ymgeledd.

Roedd Nesta fel petai hi'n taflu mantell o gynhesrwydd dros bobl. Fe gefais i'r fraint o deimlo'r cynhesrwydd hwnnw mewn cyfeillgarwch o dros ddeugain mlynedd. Un peth oedd yn clymu'r ddwy ohonom oedd ein cefndir daearyddol cyffelyb: fe'n magwyd mewn cymoedd oedd yn ffinio â'i gilydd.

Un o Gwm Nedd oedd Nesta. Efallai fod llawer yn meddwl am gymoedd Morgannwg fel lleoedd poblog, tywyll wedi eu hagru gan ddiwydiannau'r gorffennol; ac yn wir y mae digon o ardaloedd felly. Ond nid dyna Gwm Nedd. Y tu allan i'r pentrefi mae yna harddwch a pheth gwylltineb – a chofiwch mai merch ffarm oedd Nesta. Fe dreuliodd hi hefyd pan oedd hi'n blentyn ifanc dipyn o amser ar fferm ei mamgu a'i thadcu yng Nglyncorrwg – pentref digon anghysbell yn y mynydd-dir rhwng Nedd ac Afan, ac rwy'n ei chofio hi 'n dweud mai ar geffylau y byddai'r teulu'n teithio dros y mynydd o'r naill gwm i'r llall. Dyna Forgannwg ei magwraeth hi. Roedd cryn dipyn o Gymreictod traddodiadol ar ôl yng Nghwm Nedd ei phlentyndod hefyd, y capeli'n cynnal gweinidogion a'r pentrefi'n trefnu eisteddfodau llewyrchus. Ond dieithrwch Seisnigaidd oedd yn ei haros pan aeth hi i Ysgol Ramadeg y Merched yng Nghastell Nedd. Yno roedd hi'n hynod werthfawrogol o ddylanwad ei hathrawes Gymraeg arni, ac yn ddiolchgar hefyd am y cyflwyniad a gafodd i weithgareddau'r Urdd. Yr Urdd a'i hathrawes a'i cadwodd hi'n Gymraes, meddai hi.

A dyna ni'n dod at yr emynau eraill a ddewisodd hi. ***'Cofia'n gwlad, benllywydd tirion'*** a ***'Dros Gymru'n gwlad'***. Yr oedd Nesta'n Gymraes i'r carn. Ochr-yn-ochr â'i theulu, yr oedd ei Chymreictod yn un o brif golofnau ei bywyd. Peth arall yr wyf yn ei chofio hi'n dweud oedd cymaint o loes iddi oedd gorfod canu'n gyson yn yr ysgol emyn mawr William Blake ***'And was Jerusalem builded here, in England's green and pleasant land'***. Emyn ardderchog yn ei le, ond nid Castell Nedd oedd y lle hwnnw.

Fe ddywedais 'mod i'n nabod Nesta ers dros ddeugain mlynedd, ond mewn gwirionedd gwyddwn amdani o'r chwedegau ymlaen. Mae gennyf ddarlun clir ohoni, yn wraig ifanc newydd briodi, ar risiau'r fynedfa i brif adeilad y Brifysgol yn Abertawe, lle'r oedd Iolo'n ddarlithydd. Ac yr oedd hi'n drawiadol, yn dalsyth ac yn urddasol ei gwedd, a'i gwallt du, mi gofiaf, yn y *flick-ups* oedd yn ffasiynol ar y pryd. Ond os oedd urddas yn ei phryd a'i gwedd, perthynai iddi urddas mewnol hefyd. Roedd safonau ymddygiad yn bwysig i Nesta, a dyna un o'i nodweddion yn ei bywyd proffesiynol. Yma ym Mangor, bu'n arbenigo yn Ysgol Friars ar ddysgu plant oedd ag anghenion dysgu arbennig, plant cyfyng eu gallu yr oedd eu cefndiroedd, rai ohonynt, yn ddigon anodd. Byddai Nesta yn eu trin â pharch ac urddas, mewn ffordd garedig ond ansentimental, ac yn disgwyl iddynt hwythau ymateb yn yr un ffordd. Fe roddai iddynt yr un ymdeimlad o werth personol ag a roddai i bawb.

Roedd ganddi ddiddordebau a ddôi â phleser iddi: cael bod yn weithgar gyda **Chôr Adrodd Tregarth**, ac ymfalchïo yn ei lwyddiant yn y Genedlaethol; actio gyda **Chwmni Drama'r Llechen Las** ym Methesda; chwarae golff a dod yn gapten y merched yng Nghlwb Golff Caernarfon; ymuno yng ngweithgareddau Merched y Wawr.

Mewn cyfnod o ddeugain mlynedd, fe fu gofidiau, fe fu profedigaethau. Ond braint fu cael rhannu gyda hi hefyd lawenydd bywyd: gweld y plant yn cyd-dyfu, cael mynd ar wyliau i'r Cyfandir gyda'n gilydd, treulio dyddiau yn yr Eisteddfod Genedlaethol, mwynhau ambell barti Calan. Hebddi bydd y byd yn dlotach lle.

*Branwen Jarvis*

## TAITH BATON Y GYMANWLAD 2022

Yn ddiweddar bu pobl ar draws Cymru yn cael cyfle i gludo Baton y Frenhines.

***Teithiodd y baton i 72 o wledydd a thiriogaethau'r Gymanwlad, taith 90,000 o filltiroedd yn gyfangwbl.***

***Cyrhaeddodd y baton ardal Dyffryn Ogwen ar 29 Mehefin***

***a chafodd Cian Iolen Rhys gyfle i'w gario o Ysgol Dyffryn Ogwen i Ysgol Pen y Bryn.***

